RPW
Ar-Lein
Online

Taliadau Gwledig Cymru
Rural Payments Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Canllaw syml i’r Asiant ar sut i ddefnyddio Taliadau Gwledig Ar-lein




WG18626

# Sut i ddefnyddio Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein

Pwrpas y ddogfen hon yw rhoi cyfarwyddiadau gam wrth gam i chi ar sut i ddefnyddio RPW Ar-lein. Isod, fe welwch y dudalen gynnwys sydd â dolenni arni y mae modd clicio arnynt i'w gwneud yn haws i chi. Hefyd, fel welwch ddolenni 'Yn ôl i'r Cynnwys' ar ddiwedd pob adran fel y gallwch symud yn rhwydd o un cyfarwyddyd i'r llall. Am fod y ddogfen hon mor fanwl, mae wedi'i dylunio i'w defnyddio ar-lein yn bennaf.

Er mwyn bodloni amodau Cynllun Iaith Llywodraeth Cymru, mae'r Canllaw hwn yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg. Os hoffech chi gael copi o'r Canllaw mewn Iaith arall, ewch i www.cymru.gov.uk/rpwarlein a chlicio ar y newidydd Iaith sydd ar frig y dudalen ac ail-agor y ddogfen. Os ydych chi'n cael problemau neu'n methu cael at y wefan, cysylltwch â Desg Gymorth RPW Ar-lein – 0300 062 5004 neu e-bostiwch RPWAr-lein@cymru.gsi.gov.uk.

## Cynnwys: Tudalen:


- Hafan Asiant -Fy Nghyfrif Ar-lein 3
  - Dewisiadau Ar-lein 3
  - Rheoli Cwsmeriaid 6
    - Cymeradwyo 7
    - Aros am Gymeradwyaeth gan yr Asiant/Undeb Amaethyddol 9
    - Wedi'i wrthod gan yr Asiant/Undeb Amaethyddol 12
    - Gwrthodwyd gan y Cwsmer 14
    - Gweld Hanes 15
    - Rôl yr Asiant/Undeb Amaethyddol/Cynghorydd y Diwydiant 17

**Dolenni defnyddiol** **18**

- Gwasanaethau sydd ar gael drwy Borth y Llywodraeth 18
- Gwasanaethau eraill 19


**Ymwadiad**

Pwrpas y canllaw hwn yw eich helpu gyda gwasanaeth Ar-lein Taliadau Gwledig Cymru (RPW Ar-lein). Mae'r Canllaw hwn wedi cael ei rannu'n adrannau gyda chyfarwyddiadau manwl. Wrth i gyfleusterau Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein (RPW Ar-lein) gael eu datblygu bob yn gam, bydd y Canllaw hwn yn newid o dro i dro.

Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru

©Hawlfraint y Goron 2013

## Hafan Asiant - Fy Nghyfrif Ar-lein


Pan fyddwch chi'n dewis 'Fy Nghyfrif Ar-lein', bydd gennych sawl opsiwn.





[Nôl i'r Cynnwys](#)


## Dewisiadau Ar-lein

Trwy ddewis 'Dewisiadau Ar-lein', byddwch yn gweld y sgrîn ganlynol:




Dewisiadau Ar-lein eich dewisiadau ar gyfer RPW Ar-lein
E-bost ynte neges destun? *
Y ddau
Cyfeiriad e-bost
[redacted].com
Cadarnhau cyfeiriad e-bost
[redacted].com
Rhif ffôn symudol
[redacted]604
Cadarnhau rhif ffôn symudol
[redacted]604
Pa ohebiaeth? *
Ar-Lein
Bydd angen i chi benderfynu sut yr ydych am dderbyn hysbysiadau a gohebiaeth yn y dyfodol.
E-bost ynte neges destun? - Hysbysiadau - Sut mae Taliadau Gwledig Cymru Arlein yn cysylltu â chi er mwyn rhoi gwybod bod dogfen/llythyr newydd wedi'i ychwanegu at eich cyfrif. Gallwch ddewis E-bost, Neges Destun (SMS) neu'r Ddau.
Pa ohebiaeth? - Dewis o Ohebiaeth - Sut y byddwch yn derbyn llythyron Llywodraeth Cymru. Gallwch ddewis derbyn llythyron 'Arlein' yn unig drwy eich Cyfrif Taliadau Gwledig Cymru Arlein, neu 'Papur ac Arlein' i dderbyn copi papur drwy'r post hefyd.
Ar ôl i chi ddewis y botwm ‘Diweddaru gwybodaeth’, newidiwch a/neu teipiwch eich manylion fel bo’r angen.
Hefyd, mae adran ddefnyddiol yn eich hysbysu am eich ‘Dewisiadau Ar-lein’ a pham bod rhaid i chi eu dewis.



Dewisiadau Ar-lein eich dewisiadau ar gyfer RPW Ar-lein
E-bost ynte neges destun? *
Ebost
Cyfeiriad e-bost
[redacted].com
Cadarnhau cyfeiriad e-bost
[redacted].com
Rhif ffôn symudol
Cadarnhau rhif ffôn symudol
Pa ohebiaeth? *
Papur a Ar-Lein
Ar ôl i chi orffen newid eich manylion, cliciwch ar ‘Safio’.
Os ydych chi’n penderfynu nad ydych am ddiweddaru’ch ‘Dewisiadau Ar-lein’, cliciwch ‘Canslo’.
Safio
Canslo





Nôl i'r Cynnwys

# Rheoli Cwsmeriaid

Ar ôl clicio ar y botwm ‘Rheoli Cwsmeriaid’, bydd y dudalen ganlynol yn ymddangos:




Bydd y glust statws eich cysylltiad yn arddangos manylion eich cwsmeriaid yn ôl eu rhifau CRN.





Bydd manylion eich cwsmeriaid yn ymddangos o fewn eu bocs eu hunain. Bydd y rhan hon yn cynnwys rhif CRN, Enw Masnachu, y Rolau sydd wedi’i dyrannu i chi; yna, bydd gwahanol fotymau ar gael i chi; mae’n dibynnu pa glust sydd ar agor gennych.


[Nôl i'r Cynnwys](#)

# Cymeradwyo

Pan fyddwch yn clicio ar yr opsiwn ‘Rheoli Cwsmeriaid’ bydd y glust cysylltiadau wedi’u ‘Cymeradwyo’ yn agor.




Bydd y glust ‘Cymeradwyo’ yn ymddangos:




1. Enw Masnachu a CRN eich cwsmeriaid.

2. Y rolau y mae pob cwsmer wedi’u neilltuo ar eich cyfer




3. Botwm ‘Gwrthod’ os byddwch yn penderfynu gwrthod y cysylltiad.


4. Botwm ‘Gweld Hanes’ fydd yn dangos hanes y rolau sydd wedi’u neilltuo ar eich cyfer.




Os ydych yn clicio ar 'Gwrthod' cysylltiad, bydd y system yn gofyn ichi gadarnhau hynny ar y dudalen nesaf.

Cliciwch ar 'Cadarnhau'.

Os ydych chi'n penderfynu peidio â mynd ymlaen â 'Gwrthod' y cysyllitad, cliciwch 'Canslo'.





Ar ôl clicio ar 'Cadarnhau', bydd y dudalen 'Rheoli Cwsmeriaid' yn diweddaru a bydd y cleientiaid yr ydych wedi gwrthod cysylltiad â hwy'n diflannu o'r glust 'Cymeradwyo'.

[Nôl i'r Cynnwys]

## Aros am Gymeradwyaeth gan yr Asiant/Undeb Amaethyddol


Ar ôl clicio ar y botwm ‘Aros am Gymeradwyaeth gan yr Asiant/Undeb Amaethyddol’, bydd y dudalen ganlynol yn ymddangos:














[Nôl i'r Cynnwys]










[Nôl i'r Cynnwys](#)


## Wedi'i wrthod gan yr Asiant/Undeb Amaethyddol

Os ydych chi'n clicio ar y glust 'Wedi'i wrthod gan yr Asiant/Undeb Amaethyddol', bydd y dudalen ganlynol yn ymddangos:








[Nôl i'r Cynnwys](#)

# Gwrthodwyd gan y Cwsmer

Os ydych chi'n clicio ar 'Gwrthodwyd gan y Cwsmer', bydd y dudalen ganlynol yn ymddangos:




Bydd y glust 'Gwrthodwyd gan y cwsmer' yn ymddangos:






**Noder:** Unwaith y mae'r cwsmer wedi gwrthod y cysylltiad, nid oes modd adfer y cysylltiad.

[Nôl i'r Cynnwys]

## Gweld Hanes

Os ydych chi'n clicio ar 'Gweld Hanes', bydd y dudalen ganlynol yn ymddangos




Bydd y bocs cyntaf yn dangos hanes y cwsmer. Os nad oes unrhyw newidiadau wedi cael eu gwneud i'ch rolau chi ers creu'r cysylltiad, yna dyma'r unig focs y byddwch yn gallu ei weld.




Bydd y bocs nesaf yn dangos hanes blaenorol y cwsmer. Os yw'ch cwsmer **wedi** gwneud newidiadau i'ch rolau ers creu'r cysylltiad, yna byddwch yn gallu gweld y rolau blaenorol yma.

Mae'r bocsys sy'n cynnwys hanes y cwsmer a ddewiswyd mewn trefn ddisgynnol. Mae hyn yn golygu bod y rolau gwreiddiol a ddyrannwyd i chi pan gafodd y cysylltiad ei gymeradwyo gyntaf, fydd y bocs sydd i'w weld ar waelod y sgrin ac mae'r rolau mwyaf cyfredol a ddyrannwyd i chi i'w gweld yn y bocs ar dop y sgrin.

Nôl i'r Cynnwys

## Rolau’r Asiant/Undeb Amaethyddol/Cynghorydd y Diwydiant

Isod mae disgrifiad o’r rolau y gall eich cwsmeriaid eu rhoi i chi a’r hyn y gallwch chi ei wneud i’ch cwsmer unwaith bydd un neu fwy o’r rolau hyn wedi cael eu neilltuo i chi.

**Newid Manylion Busnes**:  Gyda’r rôl hon, gallwch newid manylion busnes ar-lein eich cwsmer.  Gallwch newid manylion y busnes trwy fynd i Manylion Cyffredinol, Cyfeiriad Gohebu, Prif Gyfeiriad y Fferm, Cyfeiriad Masnachu, Manylion Unigolyn a Dewisiadau Ar-lein.  Os **na** chewch chi’r rôl hon, byddwch yn dal i allu gweld yr adrannau hyn ond **ni fydd** y botymau ‘ychwanegu manylion newydd/diwygio’ ar gael.  Dim ond Asiantau ac Undebau Amaethyddol **yn unig** sy’n cael y rôl hon.

**Cwblhau Cais**:  Gyda’r rôl hon, gallwch gwblhau cais ar-lein (unwaith y bydd y cyfleuster ar gael).  **Nid** yw’n golygu bod genych hawl i gyflwyno’r cais.  Os **na** chewch chi’r rôl hon, byddwch yn dal i allu gweld yr hawliadau ond **ni fydd** y botymau ‘ychwanegu manylion newydd/diwygio’ ar gael.  Dim ond Asiantau ac Undebau Amaethyddol **yn unig** sy’n cael y rôl hon.

**Cyflwyno Cais**:  Gyda’r rôl hon, gallwch cwblhau cais ar-lein (unwaith bydd y cyfleuster ar gael).  Os **na** chewch chi’r rôl hon, byddwch yn dal i allu gweld hawliadau ond ni fydd y botwm ‘Cyflwyno Hawliadau’ ar gael i chi.  Dim ond Asiantau **yn unig** sy’n cael y rôl hon,

**Gweld Taliad/Llythyrau Ariannol:**  Gyda’r rôl hon, byddwch yn gallu gweld Gwybodaeth Ariannol ar-lein, e.e. llythyrau talu, llythyrau gordaliadau a Thaliadau sydd wedi cael eu gwneud i’ch cwsmeriaid.  Os cewch chi’r rôl, byddwch yn gallu defnyddio’r ddewislen ‘Gwybodaeth Ariannol > Taliadau’.    Os **na** chewch chi’r rôl hon, fydd yr opsiynau **ddim** ar gael i chi.  Dim ond Asiantau ac Undebau Amaethyddol **yn unig** sy’n cael y rôl hon..

**Rheoli Hawliau;**  Gyda’r rôl hon, byddwch yn gallu dechrau trosglwyddo hawliau Cynllun y Taliad Sengl eich cwsmer ar-lein (unwaith bydd y cyfleuster ar gael).  Bydd hysbysiadau ynghylch unrhyw geisiadau trosglwyddo (neu brydles) a wneir yn cael eu hanfon at ‘Gyfeiriad Gohebu’ busnes y fferm.  Dim ond i Asiantau ac Undebau Amaethyddol y rhoddir y rôl hon

Nôl i'r Cynnwys

## Dolenni defnyddiol

## Gwasanaethau sydd ar gael drwy Borth y Llywodraeth

Dyma rai o’r gwasanaethau eraill y gallwch eu cyrchu drwy Borth y Llywodraeth.

Mae’r gwasanaethau hyn wedi’u rhestru yn nhrefn yr wyddor ar ôl i chi fewngofnodi i wefan Porth y Llywodraeth. Er hwylustod, rydym wedi rhestru rhai ohonynt yma:

- **Gwasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS) – System Olrhain Gwartheg Ar-lein =** www.secure.services.defra.gov.uk/wps/portal/ctso
- **Adran yr Amgylchedd Bwyd a Materion Gwledig =** www.defra.gov.uk/
- **Yr Asiantaeth Taliadau Gwledig (RPA) SPS Ar-lein =** www.spsonline.rpa.gov.uk/RPARegAndEnrol/secure!unsecured.action
- **Taliadau Gwledig Ar-lein Llywodraeth yr Alban =** www.scotland.gov.uk/Topics/farmingrural/Agriculture/grants/Online-Services/18909
- **Gwasanaeth Ar-lein yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig =** http://www.dardni.gov.uk/index/online-services/saf-online.htm
- **Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru Ar-lein =** www.wefo.wales.gov.uk/wefo-online/?lang=en

Nôl i'r Cynnwys

## Gwasanaethau eraill

Nid yw'r dolenni canlynol wedi'u rhestru ar Borth y Llywodraeth, ond gallant fod o fudd i chi:

- **Llywodraeth Cymru =** www.wales.gov.uk/?lang=cy
- **Llywodraeth Cymru – Ffermio a Chefn Gwlad =** www.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/?lang=cy
- **Llywodraeth Cymru – Canllaw'r Ffermwr i Drawsgydymffurfio =** www.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/crosscompliance/;jsessionid=q58rP2RJs0YWxhsbyMcZJbLwRRJpMSDSmlLhXcnNFGVYpmQ9T6sf!-278964247?lang=cy
- **Llywodraeth Cymru – TB mewn Gwartheg =** www.new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/ahw/disease/bovinetuberculosis/?lang=cy
- **Llywodraeth Cymru – Symud ac adnabod anifeiliaid fferm =** www.new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/ahw/farmanimaltracing/?lang=cy
- **Llywodraeth Cymru – Cyswllt Ffermio =** www.new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingconnect/?lang=cy
- **Llywodraeth Cymru – Map o'n Swyddfeydd =** www.new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/helpandadvice/officemap/?lang=cy
- **Llywodraeth Cymru – Gwasanaeth Cysylltwyr Fferm =** www.new.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/farming/farmliaisonservice/?lang=cy
- **Gwlad Ar-lein =** www.gwladonline.org/?lang=cy
- **Llywodraeth Cymru – Grwpiau cefnogi straen yng nghefn gwlad =** www.wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/helpandadvice/rssg/?lang=cy
- **Undeb Amaethwyr Cymru =** www.fuw.org.uk/
- **Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr (NFU) Ar-lein =** www.nfuonline.com/
- **Y Comisiwn Coedwigaeth =** /www.forestry.gov.uk/wales
- **System Trwyddedu Symudiadau Anifeiliaid (AMLS)** = www.amls.defra.gov.uk/

Nôl i'r Cynnwys